# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 12 Chwefror 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Sawl BILl yng Nghymru sydd wedi cwblhau, sydd wrthi'n cwblhau ar hyn o bryd, neu sydd heb eto ddechrau, yr asesiadau anadlol sydd ynghlwm wrth y contract ocsigen newydd. (WAQ49356)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pryd fydd canlyniadau profi Ysgogi yn Nwfn yr Ymennydd y Cyngor Ymchwil Feddygol yn hysbys? (WAQ49357)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Yn y cyfamser, tra'r ydym yn disgwyl am gyllid i ddarparu offer a hyfforddiant, a wnaiff Llywodraeth y Cynulliad ryddhau'r cyllid sydd ei angen i ganiatáu i'r achosion mwyaf brys o ganser y brostad yng Nghymru dderbyn triniaeth brachytherapi yn Lloegr. (WAQ49358)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pryd fydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian i'r Comisiwn Iechyd yng Nghymru dalu am driniaeth brachytherapi ar gyfer pobl sy'n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru. (WAQ49359)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pryd fydd hyfforddiant pobl sy'n cynnig triniaeth brachytherapi yng Nghymru yn dechrau, a phryd fydd yr hyfforddiant hwnnw wedi'i gwblhau. (WAQ49360)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pryd fydd yr offer sydd ei angen i roi triniaeth brachytherapi i bobl sy'n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru ar gael yn Ysbyty Felindre. (WAQ49361)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Faint o arian sydd eisoes wedi ei drosglwyddo i Gomisiwn Iechyd Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn talu am driniaeth brachytherapi ar gyfer pobl sy'n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru. (WAQ49362)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ar gyfer pob BILl, a wnaiff y Gweinidog ddweud pa mor agos y maent at dargedau cyllido, fel rhan o fformiwla Townsend. (WAQ49363)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch y graddau y mae Macugen ar gael mewn BILlau yng Nghymru. (WAQ49364)